Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

CC: Kevin Griffiths, Pennaeth, Partneriaethau Llywodraeth Leol

23/09/2021

Annwyl Syr / Fadam,

Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Rheoliadau ar gyfer cymwysterau clercod cynghorau cymuned

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru. Ein nodau statudol yw sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd. Er mwyn cyflawni ein nodau, mae gennym ystod o bwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol a nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015).

Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n datblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru ac sy'n cael eu cydnabod gennym ni. Rhaid i gyrff dyfarnu wneud cais i ni am gydnabyddiaeth a mynd drwy broses drylwyr cyn i ni roi cydnabyddiaeth. Unwaith y cânt eu cydnabod, rhaid i gyrff dyfarnu gydymffurfio'n barhaus â'u hamodau cydnabod ac rydym yn monitro eu cydymffurfiaeth yn unol â'n fframwaith rheoleiddiol a'n polisïau. Gall cyrff dyfarnu cydnabyddedig nodi pa rai o'u cymwysterau y maent am eu cynnwys o fewn cwmpas eu cydnabyddiaeth. Rydym yn rheoleiddio cymwysterau TGAU, Safon Uwch a galwedigaethol gan gynnwys hyfforddiant seiliedig ar waith a chymwysterau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig pedwar cymhwyster i'w henwi yn y Rheoliadau: un neu fwy y bydd angen i glercod cynghorau cymuned eu cael fel rhan o'r amodau y mae'n rhaid i gyngor cymuned eu bodloni er mwyn cael 'pŵer cymhwysedd cyffredinol'.

Caiff tri o'r pedwar cymhwyster eu dilysu neu eu dyfarnu gan Sefydliadau Addysg Uwch ac maent o fewn cylch gwaith CCAUC a QAA. Cynigir y pedwerydd cymhwyster a enwir - y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) – ei gynnig gan Ascentis sy'n cael eu cydnabod a'u rheoleiddio gennym ni.

Er bod Ascentis yn cael eu rheoleiddio gennym ni, maent wedi eithrio CiLCA o'u cwmpas cydnabyddiaeth ac felly nid ydym yn rheoleiddio'r cymhwyster penodol hwn. Felly, ni allwn roi sicrwydd o ansawdd na phriodoldeb y cymhwyster. Yn yr un modd, nid yw o fewn ein cylch gorchwyl i fonitro'r cymhwyster hwn nac ymdrin ag unrhyw gwynion pe bai unrhyw gwynion yn codi yn y dyfodol. Ni allwn ychwaith chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau bod y cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, neu fod ganddo gynnwys digonol a phriodol sy'n benodol i Gymru.

Nodwn fod rhaglen hyfforddi CiLCA wedi'i hen sefydlu a bod y dull ymgynghori o'i fandadu yn ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Fodd bynnag, roeddem o'r farn ei bod yn ddoeth tynnu eich sylw at y ffaith nad yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio a goblygiadau hyn.

Yn ogystal â'r pwyntiau a nodir uchod, mae goblygiadau ariannol hefyd i dynnu eich sylw atynt. Mae rhaglenni dysgu sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig yn gymwys i gael arian cyhoeddus, os yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio gennym ni ac yn dod o fewn un o ddau gategori, sef Cymeradwy neu Ddynodedig. Fodd bynnag, ni fydd y rhaglen hyfforddi sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer CiLCA yn gallu hawlio cyllid o'r fath, oherwydd nid yw'n cael ei reoleiddio gennym ni ac felly nid yw wedi'i Gymeradwyo na'i Ddynodi.

Fel sylw mwy cyffredinol, gall enwi cymwysterau penodol mewn Rheoliadau fod yn broblematig, gan ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau newydd gael eu drafftio os bydd unrhyw newidiadau i deitlau'r cymwysterau, y darparwyr, neu os bydd y cymwysterau'n dod i ben / yn cael eu tynnu'n ôl.

Ar hyn o bryd un darparwr hyfforddiant sy'n darparu'r rhaglen CiLCA ac felly mae risg hefyd pe na bai'r darparwr yn gallu gweithredu am unrhyw reswm.

Os gallwn fod o unrhyw gymorth pellach neu os hoffech drafod unrhyw un o'r materion rydym wedi'u codi ymhellach, cysylltwch â ni drwy e-bostio polisi@cymwysteraucymru.org

Jo Richards

Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio.